

Oriel Davies Gallery

AWYR AGORED / DAN DO

Gwobr Celf DAC 2020

DATGANIADAU ARTISTIAID A DOLENNI I DDISGRIFIAD SAIN



Roy Barry (Enillydd)

Y Tu Mewn // Y Tu Allan


Rwy'n Ffotograffydd, dyna sut rwy'n gweld y byd mawr ac yn cyfathrebu â'r byd hwnnw, dyna sut rwy'n teimlo a dyna sut rwy'n rhan o bethau.

Mae Cymru yn fy nghyfareddu i, o'r mynyddoedd godidog a'r arfordir garw, i blwc diwydiannol ein hanes a'r rhesi diddiwedd bron iawn o garafanau gwyliau sydd wedi ymgasglu ar hyd yr arfordir.

Mae gan Gymru gymaint o harddwch, sydd wedi cael ei gyfleu mor dda gan eraill, ac mae fy ngwaith yn ceisio cyfleu dehongliad llai confensiynol, sy'n cynnwys pobl a fi fy hun yn y gwaith, oherwydd mae pobl fy mamwlad yr un mor bwysig â'r dirwedd.

Cafodd y gyfres hon o luniau eu tynnu o fy nghar a fy fan gwersylla, a chawsant eu fframio'n fwriadol i gynnwys fy amgylchoedd cyfagos yn y ddelwedd. Fel rhywun sydd ag anawsterau symudedd, roeddwn i'n credu ei fod yn bwysig dangos y gall unrhyw un fynd allan a chofnodi golygfeydd ystyrion o'r byd o'u cwrmpas.

Caiff y sawl sy'n gwyllo'r gwaith ei holi am y cysylltiad rhwng y bobl a'r wlad rydym ni'n ei galw'n gartref.




Suzie Larke

Unseen

Mae fy mhrosiect yn defnyddio ffotograffiaeth gysyniadol i gyfleu profiadau iechyd meddwl grŵp o gyfranogwyr.

Mae gennyf i ddiddordeb mewn cyfleu cyflwr mewnol yn hytrach na chyfleu adeg benodol. Byddaf yn defnyddio delweddau sydd wedi'u creu, ac yn gwau ffotograffau at ei gilydd yn ddigidol mewn modd sy'n eu cyflwyno fel un ddelwedd na ymyrrwyd â hi. Mae'r gwrthrychau yn gyd-grewyr yn y prosiect Trwy rymuso cyfranogwyr ac ymgysylltu â hwy fel arbenigwyr ar eu profiad eu hunain, mae Unseen yn ceisio dychwelyd at ymdeimlad o allu rheoli beth yw canfyddiad eraill ohonynt.

Fe wnes i greu'r ddelwedd hon gyda Kate. I Kate, mae'r goedwig yn lle diogel ac yn un drwgargoelus. Mae'n cynrychioli ei hangen hi i brofi natur, ac ar yr un pryd, i gyfleu rhywfaint o'r tywyllwch sy'n llechu ynddi hi. Disgrifiodd Kate ei thema fel carchariad a rheolaeth wedi'u cyferbynnu â rhyddid a gollyngdod. Mae'r ddelwedd hon yn cyfleu'r byd allanol, ond ar yr un pryd, mae'n cyfleu byd mewnol i Kate. Daw'r dirwedd fewnol yn un allanol.



Gaia Redgrave

Crucify

Mae Gaia Redgrave yn artist niwro-amrywiol a fydd hefyd yn profi heriau corfforlo, meddyliol a synhwyrdd. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar y drafodaeth ynghylch cydraddoldeb a mynediad o fewn normau cymdeithasol y gymdeithas sydd ohoni. Mae natur ei gwaith yn berfformiadol, ond mae hefyd yn cwmpasu gosodweithiau a delweddau digidol (ffilm).

Mae creu amgylchedd yn elfen allweddol o'i gwaith, a gall hynny fod yn amgylchedd ffisegol ei natur neu rywbeth mwy haniaethol i gyfleu geiriau ac emosiynau. Mae ei gwaith yn cynnig cipolwg ar realiti pobl eraill ac yn sicrhau effaith i annog y gwylwr i asesu neu ailasesu credoau a syniadau personol. Bydd yn aml yn darparu profiad na fyddai'r gwylwr wedi gallu ei fwynhau fel arall.

Bydd Gaia yn defnyddio cyfryngau sy'n wahanol i rai traddodiadol i gyfleu ei neges, er enghraifft, defnyddio 'dirprwy' berfformiwr, perfformio'n fyw o'i chartref a chasglu a chyfleu ei neges trwy gyfrwng argraffnodau dŵr.



Dave Peacock
The Helping Hand
(Cymeradwywyd)

Fel unigolyn creadigol, mae fy ngwaith yn cwmpasu sawl cyfrwng. Mae ffotograffiaeth yn cyd-gyfarfod ag arlunio, rhyddiaith a barddoniaeth (wedi'u hysgrifennu a'u perfformio). Mae hyn yn oed dewis cerddoriaeth ar gyfer perfformiad DJ yn arwain at ddiben a rennir o safbwynt annog newid yn y gymdeithas.

Mae'n fy mhrif ddylanwadau yn deillio o fabwysiadu ac eirioli dros ddyneiddiaeth ac amrywiaeth yn hytrach na dogmatiaeth crefyddol a chenedlaetholaidd, dod yn anabl fy hun a bod yn brif ofalwr fy merch anabl ar yr un pryd, a cherddoriaeth. Mae ffotograffwyr megis Sebastião Salgado, sy'n cael eu hedmygu am gyfleu anghyfartaledd ac allgáu byd-eang, yn llai o ddylanwad na Beirdd 'Dub' megis Linton Kwesi Johnson a rhai cyfoes megis cydweithfa No-Maddes, o ran cyfuno cyfryngau i gyfeuo anghyfiawnderau. Yn yr un modd, mae cyfuno gweithiau gorffenedig yn rhan o fy arferion creadigol.

Nod fy ngwaith yw annog cwestiynu. Mewn cyfryngau ffotograffiaeth stryd, nid pwy yn unig? Beth ddaeth â hwy yma a pham? Beth allent fod yn ei weld ac yn ei deimlo? Yn anad dim, beth yw canfyddiad y gwylwr o neges y ddelwedd a sut mae'n uniaethu â hynny?

Fy nod yw cynorthwyo fy nghynulleidfa i ganfod gwirioneddau syml. Mae derbyn amrywiaeth yn fwy na chydabod diwylliannau lleiafrifoedd ethnig, hunaniaethau rhywiol a phobl anabl. Mae'n golygu cyfrannu at annog cydraddoldeb i'r holl ddiwylliannau sy'n rhan o'r ddynoliaeth a chynnwys y diwylliannau hynny.



Sian Healey

Artist Covid-19 Recovery Room

Mae gennyf i nam ar y golwg a chyflwr o'r enw albinedd. Mae hyn yn golygu fy mod i'n gweld yn wael, rwy'n ffotoffobig ac mae fy nghanfyddiad o ddyfnder yn wael. Rwy'n ffodus fod gennyf synnwyr lliwiau da, ond mae fy ngwaith celf yn adlewyrchu fy myd cymysg a niwlog. Defnyddiais baent acrylig i greu'r gwaith, "Recovery Room".

Daeth paentiad "Recovery Room" yn dipyn o obsesiwn pan gefais i fy nharo'n wael a amheuid fod Covid-19 arnaf i. Treuliais wythnosau tua adeg y Pasg yn 2020 yn eistedd yn fy ngardd yn gwisgo pyjamas a sliperi yn ceisio cael cymaint o awyr iach ag y gallwn ni. Fe wnaeth fy nghi tywys sydd wedi ymddeol a fy nghi tywys presennol gadw cwmni i mi wrth i mi wella'n araf deg. Eisteddais yn yr awyr agored am oriau lawer wedi fy mesmereiddio gan y wahanol fathau o wyrdd oedd yn llenwi fy ngardd llawn tyfiant. Fe wnaeth y goeden lelog hyfryd ym mhen draw'r ardd gychwyn blodeuo ac fe wnaeth hynny ddwyn fy sylw wrth i mi ei gwyllo'n ffynnu ac yn cilio'n raddol yn ystod fy adferiad. Yr olygfa hon oedd lleoliad fy adferiad. Daeth fy ngardd yn estyniad o fy nghartref, yn union fel yn achos llawer o bobl eraill yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud.



Leila Bebb
Spirit Of Yoga Sun

Mae'r cyfnod o gyfyngiadau symud wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi. Rwy'n dal ati i wneud ymarfer corff, ac yn cael llawer o awyr iach yn fy ysgyfaint a fy esgyrn.

Mae tirweddau yn fy ysbrydoli i lywio siapiau gan ddefnyddio pennau ysgrifennu i wneud iddynt edrych yn loyw. Mae'r pennau yn dymuno i mi nofio a gwneud llanast â hwy, gan chwarae â lliw ac edrych yn hyfryd ar yr un pryd i greu naws gloyw, cryf, haniaethol, cain a realistig o'r olygfa o'r ffenestr sy'n dod â'r awyr agored i mewn i'r tŷ. Wrth i mi edrych trwy'r gwydr, daw pelydrau'r haul i mewn. Bydd troellennau drwy'r haul yn gwneud i'r byd a natur ddod ynghyd gyda'r hwyr.

Mae gan Spirit of Yoga Sun ddwylo iachusol i gyffwrdd â chroen y ddynoliaeth. Gwaith celf a ddisgrifir yn y sgets hon yn ystod y cyfyngiadau symud.



Alana Tyson

Look After Each Other / Gofalwch Am Eich Gilydd

Crëwyd Look After Each Other / Gofalwch Am Eich Gilydd yn 2016 mewn ymateb i gau atomfa olaf Cymru, Wylfa, fel rhan o brosiect Pŵer yn y Tir. Mae'n ail-greu arwydd ger mynedfa'r atomfa; fe wnaeth y farddoniaeth a'r tosturi mewn lleoliad mor

annisgwyl wneud argraff arnaf i. Mae'r gwaith yn teimlo'n fwy perthnasol nag erioed heddiw. Mae'r gwaith yn Gymraeg ac yn Saesneg



Alana Tyson
out-side-in-side-out

Mae out-side-in-side-out yn gyfres o dai bychan. Maent wedi'u gwau ynghyd gan ddefnyddio latecs meddal ac ystwyth; llenwir y mowldiau tebyg i groen â choncrïd. Mae'r concrïd yn gwthio'r latecs, gan wahanu semau'r gwnïad ac yn gwthio'r walïau allan. Ni all y tŷ gynnal ei ffurf heb y concrïd mewnol, ond ar yr un pryd, mae'r concrïd yn gwthio'r tŷ i'r eithaf, yn ymestyn ei ffurf. Mae'r naill yn ddibynnol ar y llall, ond ar y llaw arall, nid yw hon yn gyd-ddibyniaeth gyfforddus



Jan Williams
Layer 24 Of 56

Rwy'n artist sy'n gweithio yng Nghaerdydd, ac rwy'n gweithio'n bennaf ym meysydd paentio, gosodweithiau a ffilm. Mae hanfodion fy ngwaith yn ymwneud â chof, hunaniaeth ac amwysedd cyflyrau trawsnewidiol. Cefais fy magu ar fferm yn ardal hyfryd Bannau Brycheiniog, a'r gweithgareddau fyddai'n digwydd yno yw fy atgofion cynharaf. Yn fy fideo, 'layer 24 of 56', cefais fy ysbrydoli gan y broses flynyddol o wyngalchu adeiladau'r fferm, ac roedd pob haen yn cynrychioli blwyddyn o fy mywyd. Waliau'r beudy, oedd newydd gael eu gwyngalchu, yn amddiffyn ac yn glanhau'r trothwyon rhwng cynhesrwydd a diogelwch y mannau dan do ac elfennau annaroganadwy natur yr awyr agored. Roedd y broses ddefodol o baratoi'r paent yn fy atgoffa i o'r rheolaeth a ddaw i'n rhan wrth gyrraedd y trothwyon hynny yn ein bywyd, mannau ansicr rhwng y cyfarwydd a'r anhysbys sy'n caniatáu i mi gnoi cil ar fy nheimladau ynghylch byw gydag anabledd a'r anawsterau a brofir wrth ddymuno

mynd allan i fwynhau harddwch Cymru. Rydym ni'n sefyll ger y trothwy hwn; lle ble ceir amheuaeth, yn dymuno mynd i mewn, ond serch hynny, gall y mannau dan do deimlo'n fwy diogel. Mae cydnabod a goresgyn y rhwystrau hyn yn cyfoethogi bywyd, ac mae hynny'n sail i fy athroniaeth i, a gall hynny gryfhau eich canfyddiadau yn y dyfodol, ac agor drws at harddwch Cymru.



Howard & Millien

Tŷ sy'n Siarad (scream into the void motherf**kers) (commended)

Mae Gail Howard a Sophie Millien yn cydweithio ers dechrau 2020, ar ôl cwrdd trwy gyfrwng Prosiect Hanes Cryno Iacháu, sef ymateb a sefydlwyd gan Gail i geisio mynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd i greu celf o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Fel defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl tymor hir, mae llawer o'r gwaith y maent yn ei greu yn adlewyrchu eu profiadau o salwch meddwl a'r modd y caiff hynny ei drin yn y GIG ac yng nghyd-destun y gymdeithas a'r ymatebion iddo.

Mae eu cydweithio yn ystyried ac yn cwestiynu ein perthynas â'n hamgylchedd, ac mae'n cyffwrdd â sut mae elfennau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn effeithio ar ein bywydau. Mae Tŷ sy'n Siarad (scream into the void motherf*ckers) wedi datblygu trwy fynd ati i gydweithredu, cyd-drafod ac ail-

ddychmygu, sydd wedi caniatáu i H&M, a oedd yn ddieithriaid y tro cyntaf y gwnaethant gwrdd, datblygu iaith empathig gyda'i gilydd a pherthynas ble ceir cyd-gymorth. Mae'r gwaith yn ymateb i leoedd ac i bobl, ac mae'n canolbwyntio ar ddeialog, ymgysylltu, a'r angen i gyfathrebu, ac mae'n ceisio ymdrin â'r heriau sy'n rhan annatod o fywyd a dreulir yn teimlo diffyg cysylltiad ac yn wahanol



Jenny Joanna Bartholomew Biggs

Looking outwards from Inwards and From Inwards Outwards

Rwy'n cael y syniad o ddefnyddio fy nrych, sy'n hongian yn ein cyntedd. Rwy'n edrych tuag at allan ond yn aros dan do. Mae bod mewn cadair olwyn yn cyfleu gwerth gwahanol i fywyd, ar lefel is. Bydd diwrnod heulog yn codi fy nghalon, yn enwedig pan fydd hi'n gynnes. Gall eistedd yn llonydd wneud i mi deimlo'r oerfel. Mae'r tywydd yn un o elfennau pwysig fy mywyd oherwydd rwy'n gwybod sut gall wneud i mi deimlo.

Mae gorfod aros gartref yn ystod y cyfyngiadau symud a'r ffaith fy mod i'n ynysig yn golygu nad oes gen i lawer o dirwedd fel deunydd ar gyfer fy ngwaith, felly byddaf i'n penderfynu archwilio fy nghwmpasoedd, dan do ac yn yr awyr agored, gan ddefnyddio'r camera yn fy ngymhorthyn cyfathrebu/cyfrifiadur. Mae'r golau ymlaen yn y cyntedd oherwydd mae'n ystafell dywyll ar y cyfan, felly mae'r drws ffrynt ar agor fel y daw rhagor o oleuni i mewn i'r cyntedd. Mae gennym ni ramp wrth ein drws ffrynt. Gallaf grwydro o amgylch fy ngardd yn fy nghadair olwyn drydanol i dynnu lluniau. Rydym ni'n byw ger y rheilffordd, felly byddaf i'n aml iawn yn gallu clywed y trenau yn mynd heibio o'n hystafell sy'n wynebu'r ardd. Rwyf i wrth fy modd â'r sŵn hwnnw. Mae'n debyg i fod ar daith bwysig.



Kyriacos Asprou

My Wales Outdoors: Educating Indoors

Ar adeg tynnu'r llun, ac oherwydd argyfwng presennol Covid-19, roedd y genedl yn wynebu cyfyngiadau symud llawn; roedd rhieni yn gorfod canfod dulliau ysbrydolgar o addysgu eu plant gartref.

Mae'r llun hwn, a dynnwyd â chamera digidol, yn 'hunan bortread'. Yn y llun, rwy'n rhoi gwers sy'n cyfuno Ffotograffiaeth a Daearyddiaeth i fy mhlant. Ar y teledu, gellir gweld fideo y gwnes i ei greu; cyfuniad o ffotograffau a fideo o fy nghydweithrediad,

yn 2019, â Chyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a chronfa'r Loteri Genedlaethol. Craig Goch yng Nghwm Elan yw'r gyrchfan a welir ar sgrin y teledu.

Mae fy mhlant yn gorfod aros dan do, ac mae hyn yn rhoi cyfle iddynt grwybro o amgylch Cymru heb orfod camu allan. Mae'r teledu yn dangos tirweddau hyfryd Cymru, busnesau lleol a phobl yn eu hamgylchoedd naturiol. Tra mae'r fideo'n cael ei chwarae, Cliciwch i weld y Fideo, rwy'n addysgu fy mhlant, ac yn disgrifio pob lleoliad ac yn egluro sut crëwyd y ffotograffau. Mae'r masgiau yn arwyddion o'r cyfnod rydym ni'n byw ynddo, felly pan fydd rhywun yn edrych ar y ffotograff yn y dyfodol, gellir eu hysbysu fod y llun wedi'i dynnu yn ystod cyfnod Covid-19 yn 2020.



Tina Rogers

Inside Outside And Tina, Wet But Happy, Stuck In Tulip Trees

Mae bod allan yn yr awyr agored yn llesol i'r enaid, ond pan fyddaf i'n gaeth tu mewn, byddaf yn cael dihangfa trwy gyfrwng fy ngwaith celf. Byddaf yn dod â'r awyr

agored i mewn i'r tŷ ac ar bapur a byddaf yn gadael i fy nychymyg fynd â fi ble bynnag a fynn.

Nid oes unrhyw derfynau; mae gennyf i'r rhyddid i ymweld â chestyll dychmygol neu rai go iawn, gallaf leoli fy hun yn nhirwedd Cymru, gallaf newid siâp fy nghorff ag inc, gallaf fod yn ddigymell â phaent yn y glaw, a defnyddio rhwbiwr i gael gwared ar boen.

Hyd yn oed ar adegau o orbryder sylweddol, gallaf blodau ac aur fod o'm hamgylch. Creadigrwydd yw fy llwybr at ryddid. Nid oes cyfyngiadau, gallaf greu gan ddefnyddio beth bynnag a fynnaf. Mae'r rhoi ymdeimlad o fodlonrwydd i mi, gallaf weld y goleuni.

Byddaf y mynd o ddu a gwyn i holl liwiau'r enfys ag un brwsiad.



Catrin Gwilym
'Disgwyl am Liff'

Cyn y byd yma o hunan-ynysu, roeddwn yn aml gorfod treulio amser yn disgwyl am liff i fynd o un man i'r llall.

Ar yr adegau hynny, roedd chwilio am ddifyrrwch yn y byd o nghwmpas yn ffordd o basio amser - a hynny drwy chwilio am batrymau difyr yn yr hynod ond di-nod, yr anghyffredin yn y cyffredin. Hyn i gyd drwy sylwi ar fanylion oedd ar y cyrion, ac yn y llefydd annisgwyl.

Eistedd mewn caffi ym Merthyr Tudful oeddwn y diwrnod hwn, ac yn edrych ar yr heulwen y tu allan i'r to gwydr. Yn gwirioni hefo'r golau, y siapiau a'r cysgodion. Yn dyheu am gael eistedd yn yr haul.

Erbyn hyn, yn y byd o gysgodion y Gofid-19, dyheu ydwyf am yr amseroedd symlach hynny - lle roedd modd teithio, a disgwyl am lifftiau, a sylwi ar y rhyfeddodau oedd o'n cwmpas.



Paddy Faulkner

1/60 - 19:15 – unfinished

Rwy'n ffotograffydd ac yn wneuthurwr ffilmiau dogfen.

Yn fy ngwaith fel ffotograffydd, byddaf yn aml yn gwrthio unrhyw gamera y byddaf yn ei ddefnyddio wrth fy ngwaith hyd eithaf ei allu. Yn achos y ddelwedd 'hollol ddu', fe es i tu hwnt i'r derfyn y gallu hwnnw, felly roedd camau adferol yn ofynnol.

Cafodd y gwaith '1/60 - 19:15 - unfinished' ei greu yn yr awyr agored – tynnwyd y llun am 7.15yh un diwrnod ym mis Ebrill o glogwyni yn Sir Benfro mewn 1/60fed o eiliad. Gweithiais arno dan do (dros 18 mlynedd ar y diwrnodau pan oeddwn i'n methu mentro allan), i gael gwared ar filoedd o frychau gwyn.

I rai, mae 'dan do' yn golygu seintwar: lle diogel; i eraill, carchar. I rai, mae 'awyr agored' yn golygu rhyddid i grwydro; i eraill, mae'n lle peryglus sy'n llawn rhwystrau ffisegol sy'n atal mynediad.

Roedd yn rhaid i mi dan do ac yn yr awyr agored i greu'r gwaith.

Roedd yr haul newydd fachlud, ac ar ôl cyrraedd adref a chael cyfle i weld y llun yn iawn, roedd bron iawn yn hollol ddu. Yn ystod y cam ôl-gynhyrchu, roeddwn i'n ei ystyried yn ddelwedd newydd i'w datblygu.



Vivi Mari Carpelan
Imagination / Impression

Yn y gwaith hwn, rwyf i wedi haenu ffotograffau i fynegi sut mae fy nghanfyddiad o realiti yn dod yn brofiad mewnol y dychymyg. Tynnwyd rhai o'r lluniau yn Aberystwyth ar adeg pan oeddwn i'n dal i allu teithio, a thynnwyd eraill o'r tu allan i fy nrws ac o fy ffenestr.

Mae cyfyngiadau corfforol wedi fy nghymhell i ddyfeisio dull o weithio sydd ddim yn gymhleth. Byddaf yn arosod fy lluniau ar iPhone mewn deialog creadigol ag algorithm digidol syml. Byddaf yn rhoi cynnig ar bethau ac yn chwarae yn hytrach na cheisio rheoli'r canlyniad. Ar waethaf y dull didaro, mae'r haenu yn gweddnewid lluniau syml yn ddelweddau cymhleth sy'n teimlo'n fwriadol, yn bersonol ac yn wir. Mae'r dull yn adlewyrchu fy nghred y gall cyfyngiadau annog y meddwl i ehangu.

Mae fy ngweithiau yn cynrychioli gweithgarwch annelwig ond haenedig y meddwl dynol. Mae'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn ymdoddi yn fy mhen; mae atgofion am fannau hyfryd yn cydfodoli â gwerthfawrogiad o fy amgylchoedd cyfagos. Trwy'r adeg, bydd ofn arteithiol unigedd diddiwedd yn creu'r naws emosiynol. Yn ychwanegol, mae grymoedd natur a ergydiodd ein cartrefi yn gynharach yn ystod 2020, a llonyddwch iasol marwolaeth sydd o'n hamgylch ni, oll yn rhan o awydd cyffredinol i wylo a chael gollyngiad

Imagination



Impression



Memory



Neges gan Gyfarwyddwr Artistig Ruth Fabby, MBE **Disability Arts Cymru**

Croeso i Awyr Agored: Dan Do

Rydym wedi rhannu blwyddyn mor od, gyda newidiadau cymdeithasol enfawr sydd wedi digwydd mewn cyfnod mor fyr. Roeddem wedi bwriadu mynd ar daith trwy'r arddangosfa hon i bedair oriel ledled Cymru. Cafodd tri o'r rhain eu canslo oherwydd y pandemig. Yn ffodus rydym yn dal i allu arddangos ein gwaith yn Oriel Davies. Os ydych chi'n gwybod am Disability Arts Cymru [DAC], byddwch chi'n deall ein bod ni'n gweithio i hyrwyddo'r celfyddydau o brofiad byw anabledd. Mae hyn yn gwneud ein gwaith yn fywiog, anarferol, amrywiol ac annisgwyl. Dewiswyd thema'r arddangosfa hon 'Outdoors: Indoors' i ddechrau i archwilio "abl-ism" o fewn cymdeithas, yn enwedig o ran y cynnig twristiaeth a'r ffordd y gall negeseuon eithrio pobl anabl yn anfwriadol, ond yna daeth y cloi a'r cysgodi yn ffordd o fywyd i lawer ohonom.

Dewiswyd y gwaith gan guraduron yng Nghymru, ynghyd â thri artist / curadur o UDA a Singapore.

Creodd y pandemig byd-eang bersectif newydd ar 'Outdoors: Indoors' fel y profwyd o brofiad byw anabledd. Mae Gwobr Gelf gyntaf DAC wedi gosod sylfaen gref mewn cyfnod anodd. Byddwn yn symud ymlaen yn y dyfodol gyda mwy o gyfleoedd i hyrwyddo a churadu'r gweithiau celf a luniwyd ac a grëwyd gan artistiaid anabl o bob rhan o Gymru.

Detholwyr

Fran Flaherty: Pittsburgh, USA

Dawn-Joy Leong: Singapore

Brandon Cordrey: Raleigh, USA

Rebecca Hardy-Griffith: Galeri, Caernarfon

Christopher Parry: Amgueddfa Ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa// Cyfarthfa Castle Museum & Art Gallery

William Tregaskes: Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon// Cynon Valley Museum Trust

Steffan Jones-Hughes: Oriel Davies Gallery



AMGUEDDFA CWM CYNON
CYNON VALLEY MUSEUM



galeri



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

 **flipsnack**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government